



Ein cyf/Our ref MA-JJ-2770-23

Scott Waddington
Cadeirydd, Trafnidiaeth Cymru
Pontypridd

13 Mawrth 2024

Annwyl Scott

Dyranid Cyllid pellach Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru 2023/24

Yn y llythyr cyllido a gyflwynwyd i Trafnidiaeth Cymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, cytunais ar gyfanswm setliad cyllideb i Trafnidiaeth Cymru o £276.269m o refeniw a £314.554m o gyfalaf ar gyfer 2023/24. Cydnabuwyd ar y pryd fod y ffigurau'n cynrychioli pwysau ariannol sylweddol yn erbyn y rhagolwg ariannol yn eich Cynllun Busnes blynyddol.

Felly, mae'r Cabinet wedi cytuno ar yr arian ychwanegol a amlinellir isod yn dilyn yr ymarfer ail-gyllidebu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd hon yn broses hawdd na syml, sy'n adlewyrchu'r dirwedd economaidd ac ariannol heriol bresennol. Rwyf felly'n disgwyl i chi a'ch bwrdd achub ar bob cyfle i leihau costau a'r gofyniad cymhorthdal cyffredinol yn unol â'r llythyr cylch gwaith a roddwyd i chi dros yr haf.

Cytunwyd ar newidiadau mewn cyllid refeniw sy'n dod i gyfanswm o gynnydd cyffredinol o £118.826m mewn perthynas â'r canlynol:

	BEL		Gwreiddi ol	Newidiad au yn y Gyllideb	Addasu IFRS	Dyranid diwygiedig
Refeniw:	1895	Trafnidiaeth Cymru*	245.805	119.400	-43.609	321.596
	Amh	Yr Adran Drafndiaeth	18.600	-0.574		18.026
	1880	Cymorth i Fysiau a Thrafnidiaeth Leol	9.506			9.506
	2000	Tocynnau Teithio Rhatach	1.078			1.078
	2001	Teithio Rhatach i Bobl Ifanc	0.170			0.170
	2030	Teithio Cynaliadwy	0.250			0.250
	1892	Diogelwch ar y Ffyrdd	0.518			0.518

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1885	Gweithrediadau'r Rhwydwaith	0.300			0.300
1884	Gweithrediadau'r Rhwydwaith	0.042			0.042
	Cyfanswm Refeniw	276.269	118.826	-43.609	351.486

* Mae newid yn y gyllideb yn cynnwys gofyniad ychwanegol o £125m , wedi'i addasu ar gyfer rhagolwg gostyngol o £1m, llai o £4.6m o gyllid dibrisiant ar asedau a drosglwyddwyd i Reilffordd TrC yn ystod y broses Gweithredwr y Dewis Olaf sy'n ofyniad ariannu ar gyfer TrC ond nid yw'n cael unrhyw effaith ar y gyllideb i Lywodraeth Cymru.

Cytunwyd ar newidiadau mewn cyllid cyfalaf sy'n dod i gyfanswm o gynnydd cyffredinol o £144.625m (ynghyd â £308.466m o ddyraniad cyfalaf IFRS 16 i adlewyrchu'r newid mewn triniaeth gyfrifo ar gyfer costau prydles ar gyfer cerbydau newydd) mewn perthynas â'r canlynol:

	BEL		Gwreiddiol	Newidiadau yn y Gyllideb	Addasu IFRS	Dyraniad diwygiedig
Cyfalaf:	1895	Trafnidiaeth Cymru	196.172	171.209		367.381
	1895	Trafnidiaeth Cymru (IFRS 16)			308.466	308.466
	Amh	Yr Adran Drafndiaeth	9.793			9.793
	1880	Cymorth i Fysiau	47.74	-23.595		24.145
	2030	Teithio Cynaliadwy a Llesol [#]	56.422	-3.989		52.433
	1885	Gweithrediadau'r Rhwydwaith	0.577	3.85		4.427
	1888**	Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol	3.85	-3.85		0.000
	3830	Seilwaith Strategol***		1.001		1.001
		Cyfanswm Cyfalaf	314.554	144.625	308.466	767.645

** BEL 1888 ynghyd â 1885 yn unol â'r gyllideb a gyhoeddwyd ar gyfer 23-24

*** Yn ogystal â'r dyraniad o £5.33m drwy lythyr cynnig grant ar wahân y flwyddyn ariannol hon

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys cyllid a ddarperir trwy gynigion grant unigol na'r broses rheoli newid na ragwelwyd yn y llythyr cylch gwaith blynyddol. Mae'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn a nodir yn y llythyr cyllido cychwynnol yn parhau ac yn berthnasol i unrhyw gyllid ychwanegol. Rhaid ichi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gydnaws â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a'r cytundebau cymwys a gynhwysir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chi i fonitro gwariant a chyllid wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn galluogi Gweinidogion i ystyried unrhyw amrywiadau sy'n dod i'r amlwg mewn trafodaethau rheoli cyllideb rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee Waters', is positioned in the upper left corner of the page. The signature is written in a cursive style with a prominent vertical stroke at the beginning.

Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change